

WALTERS, JOHN (1721 - 1797), clerigwr a geiriadurwr

Enw: John Walters
Dyddiad geni: 1721
Dyddiad marw: 1797
Plentyn: Henry Walters
Plentyn: Daniel Walters
Plentyn: John Walters
Rhiant: John Walters
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr a geiriadurwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Griffith John Williams

Ganwyd 22 Awst 1721, mab John Walters, masnachwr coed yn Llanedi yn Sir Gaerfyrddin. Bu ei rieni farw pan oedd yn llanc ifanc. Aeth i Fasaleg yn sir Fynwy i gadw ysgol, a bu wedi hynny yn ddisgybl yn ysgol ramadeg y Bont-faen. Yna aeth i Fargam i gadw ysgol, ac yn 1750 ordeiniwyd ef yn offeiriad. Bu'n gurad ym Margam, ac wedi hynny cafodd guradiaeth barhaol Llanfihangel Ynys Afan. Arhosodd yno hyd 1759 pan gafodd reithoraeth Llandochoau yn ymyl y Bont-faen, a ficeriaeth Saint Hilari. Yn 1795 rhoddwyd iddo brebend yn eglwys gadeiriol Llandaf. Bu farw ar 1 Mehefin 1797, a chladdwyd ef yn Llandochoau. Yr oedd ganddo bum mab, ac enillodd dau ohonynt, [John](#) a Daniel, gryn fri fel beirdd ac ysgolheigion. Ef, y mae'n debyg, a ddenodd [Rys Thomas](#), yr argraffydd, i'r Bont-faen i sefydlu'r wasg gyntaf ym Morgannwg. Cyhoeddodd *A Dissertation on the Welsh Language*, 1771, a *Dwy Bregeth*, 1772, ond ei brif waith ydoedd y *geiriadur mawr Saesneg-Cymraeg*. Fe'i seiliwyd ar eiriadur anghyhoeddedig [William Gambold](#), ond bu Walters wrthi'n ddyfal yn casglu defnyddiau o bob math. Fe'i hargraffwyd yng ngwasg y Bont-faen, a daeth y rhan gyntaf allan ar 5 Ebrill 1770. Cyhoeddwyd 14 rhan rhwng 1770 a 1783, ond ni allwyd argraffu'r gweddill hyd 1794, pan drefnodd '[Owain Myfyr](#)' i gwpláu'r gorchwyl yn Llundain. Lluniodd lu o eiriau sydd wedi ennill eu lle yng ngeirfa'r iaith, a cheisiodd ddangos sut i gyfieithu idiomaau Saesneg. Cyhoeddwyd dau argraffiad yn y ganrif ddiwethaf, a dyma'r gwaith a oedd wrth benelin [Daniel Silvan Evans](#) pan luniai ei eiriadur Saesneg - Cymraeg.

Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Ffynonellau

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Oxford Dictionary of National Biography

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925), 85-9

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [54024817](#)

Wikidata: [Q14982023](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

